# Adolygiad o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer Modelau Gweithredu Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd (Cymru)

**Dyddiad lansio: 24 Chwefror 2025**
**Ymatebion erbyn: 19 Mai 2025**

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Awdurdodau Cymwys – awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd
- Busnesau bwyd a chyrff masnach y diwydiant
- Cyrff dyfarnu ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd yr amgylchedd a safonau masnach
- Efallai y bydd gan Undebau Llafur a grwpiau arbenigol ddiddordeb hefyd

## Diben yr ymgynghoriad

Ceisio barn rhanddeiliaid ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod) a'r Canllawiau Ymarfer (PG), gan gynnwys newidiadau i'r Model Gweithredu Safonau Bwyd a chanllawiau i gefnogi hyn.

Mae'r prif gynigion yn cynnwys:

- dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd, a chynnal rheolaethau swyddogol priodol
- cyflwyno'r hyblygrwydd i gynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol o bell o dan amgylchiadau penodol
- ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas'[1] ar gyfer hylendid bwyd neu safonau bwyd eu cynnal, os ydynt yn gymwys
- eglurhad o'r dull o gynnal ymyriadau mewn sefydliadau busnesau bwyd sy'n dod o dan gategori risg E ar gyfer hylendid bwyd

---

[1] Mae rhestr o gymwysterau addas i'w chael yn Adran 3.2.3 o'r Cod

- cael gwared ar y nifer penodol o oriau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- cyflwyno cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd newydd y bydd swyddogion awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i werthuso'r risg a berir gan fusnes bwyd
- cyflwyno matrics penderfynu newydd i bennu pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol yn unol â chanlyniad yr asesiad risg
- diwygiadau eraill nad ydynt yn diwygio polisi, er mwyn darparu eglurder, gwella cysondeb a bod yn gyson ag arferion presennol

## Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad isod i roi eich sylwadau:

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (fersiwn Word hygyrch)

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (ffurflen PDF hygyrch)

Yna, dylid e-bostio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i CodeReviewResponses@food.gov.uk

# Cynnwys


I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf? 1

Diben yr ymgynghoriad 1

Sut i ymateb 2

Manylion yr ymgynghoriad 4

Cyflwyniad 4

Cefndir 4

Y prif gynigion: 6

Amcanion polisi 6

Y cynigion manwl 7

Cynnig 1: Dull wedi’i ddiweddaru sy’n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol ym meysydd hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd newydd 7

Cynnig 2: Cyflwyno hyblygrwydd i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd o bell, o dan amgylchiadau penodol 11

Cynnig 3: Ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar ‘gymhwyster addas’ ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol eu cyflawni, os ydynt yn gymwys 15

# Manylion yr ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Yng Nghymru, awdurdodau lleol (ALlau) ac awdurdodau iechyd porthladdoedd (PHAs) yw'r Awdurdodau Cymwys (CAs) sy'n gyfrifol am wirio a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd yn y rhan fwyaf o fusnesau bwyd. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am roi cyngor a chanllawiau ar y dull y dylai CAs ei fabwysiadu, ac mae hyn wedi'i nodi yn y Cod, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Caiff y Canllawiau Ymarfer eu cyhoeddi i gynorthwyo CAs wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd statudol o orfodi cyfraith bwyd. Mae'r canllawiau yn anstatudol, yn ategu'r Cod, ac maent yn rhoi cyngor cyffredinol ar y dull o orfodi'r gyfraith.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar CAs i ystyried y darpariaethau yn y Cod mewn perthynas â chynnal rheolaethau swyddogol. Mae angen adolygu'r Cod yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau, polisïau a gofynion deddfwriaethol cyfredol fel bod gwaith CAs o gynnal rheolaethau bwyd yn parhau i fod yn effeithiol, yn gyson ac yn gymesur.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y cynigion, a amlinellir isod. Sylwch – pan fyddwn yn cyfeirio at reolaethau bwyd swyddogol, mae hynny'n cynnwys rheolaethau hylendid bwyd a safonau bwyd swyddogol. Mae ymgynghoriadau hefyd yn cael eu cynnal yn Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â chynigion 1 i 5. O ran y cynigion a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r model gweithredu safonau bwyd, roedd y rhain yn destun ymgynghoriadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2023 ac maent bellach wedi'u rhoi ar waith yn eu Codau priodol.

## Cefndir

Mae'r dirwedd fwyd wedi newid yn sylweddol yn ystod y tri degawd ers cyflwyno'r system reoleiddio gyfredol, yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn prynu ac yn bwyta bwyd. Mae'r newidiadau hyn yn creu cyfleoedd newydd i ni ddiogelu buddiannau defnyddwyr yn well. Rydym am wneud yn siŵr bod CAs yn gallu targedu eu hadnoddau mor effeithiol â phosib, sicrhau bod pob ymyriad yn ychwanegu gwerth, a'u bod yn gallu ysgogi cydymffurfiaeth.

**Model Gweithredu Hylendid Bwyd (FHDM)**

Ar ôl asesu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r model gweithredu hylendid bwyd presennol ym mis Medi 2022, cymeradwyodd Bwrdd yr ASB y prif gynigion polisi ar gyfer FHDM diwygiedig. Yn ystod gwanwyn 2023, gwnaethom gynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y datblygiadau arfaethedig ar gyfer FHDM wedi'i foderneiddio ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom gynnal

naw digwyddiad er mwyn ymgysylltu ag ALlau ar draws y tair gwlad, yn ogystal â gweminar ar-lein. Cawsom 114 o ymatebion i'r ymgynghoriad a gwnaethom gasglu dros 2,000 o ddarnau o adborth o bob un o'r tair gwlad, gan gynnwys adborth gan ALlau, grwpiau yn y diwydiant a chyrff proffesiynol.

Dyma'r datblygiadau arfaethedig yr ymgynghorwyd arnynt:

- cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd wedi'i foderneiddio, gan gynnwys matrics penderfynu i bennu amlder priodol y rheolaethau hyn yn seiliedig ar y risg a berir gan sefydliad busnes bwyd

- dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran yr amserlenni (lle nad ydynt wedi'u pennu mewn deddfwriaeth) ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd, ac ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol priodol

- mwy o hyblygrwydd yn y dulliau a'r technegau y gellir eu defnyddio wrth gynnal rheolaethau swyddogol er mwyn pennu lefel risg sefydliad, gan gynnwys defnyddio rheolaethau swyddogol o bell

- ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion, fel Swyddogion Cymorth Rheoleiddiol, nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer hylendid bwyd eu cynnal, os ydynt yn gymwys

Roedd safbwyntiau cymysg ar gyfer rhai elfennau o'r datblygiadau arfaethedig, ond cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer elfennau eraill.

Roedd ein hymateb cyhoeddedig i'r ymgynghoriad yn dangos safbwyntiau cymysg rhanddeiliaid ar rai elfennau o'r datblygiadau arfaethedig. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, penderfynodd yr ASB beidio â bwrw ymlaen â'r cynigion a oedd yn gofyn am dreialu neu wneud newidiadau sylweddol i'r system gwybodaeth reoli (MIS) hyd nes y byddai mwy o wybodaeth am gostau cysylltiedig â chyflwyno'r Model Safonau Bwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael i lywio'r cynigion hyn. Yn lle hynny, penderfynodd yr ASB ganolbwyntio ar ddatblygu ymhellach y cynigion polisi a oedd â chefnogaeth eang ac y gellid eu gweithredu heb gynnal treial. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y prif gynigion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

## Model Gweithredu Safonau Bwyd (FSDM)

Yn 2018, gwnaeth yr ASB gychwyn adolygiad o'r modd y gweithredir safonau bwyd er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r dulliau newidiol o orfodi safonau bwyd gan ALlau a'r heriau a wynebir. Roedd tystiolaeth anecdotaidd, a oedd yn cefnogi canfyddiadau Adolygiad Elliott ac adroddiadau eraill, yn dangos y bu dirywiad yn effeithiolrwydd y ddarpariaeth reoleiddiol dros rai blynyddoedd, bod ALlau yn ei chael

hi'n fwyfwy anodd cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod), ac nad oedd y Cod ei hun bellach yn addas at y diben.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad safonau bwyd a chafwyd trafodaeth yn eu cylch wedi hynny gan Fwrdd yr ASB yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2018. Cytunodd y Bwrdd i roi blaenoriaeth i ddatblygu a chyflwyno FSDM gwell ac wedi hynny cymeradwyodd y dull arfaethedig yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2019.

Cymerodd yr ASB ran mewn gweithgor gydag ALlau, a thrwy hynny datblygodd fodel newydd i ALlau ei ddefnyddio wrth gynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol.

Nod y dull arfaethedig yw caniatáu hyblygrwydd i ALlau dargedu adnoddau'n well at y busnesau bwyd sy'n cyflwyno'r risg fwyaf drwy gyflwyno cynllun sgorio ymyriadau newydd a matrics penderfynu sy'n pennu pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau swyddogol. Mae'r ymgynghoriad hwn ar ddiwygiadau i'r Cod yn cael ei lywio gan gynllun peilot 15 mis cychwynnol o'r model arfaethedig yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a chynllun peilot 6 mis yng Nghymru i brofi'r dull gweithredu a nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

## Y prif gynigion:

Dyma'r prif gynigion yn yr ymgynghoriad hwn:

- dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd
- cyflwyno hyblygrwydd i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd o bell, o dan amgylchiadau penodol
- ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer hylendid bwyd neu safonau bwyd eu cynnal, os ydynt yn gymwys
- eglurhad o'r dull o gynnal ymyriadau mewn sefydliadau busnesau bwyd sy'n dod o dan gategori risg E ar gyfer hylendid bwyd
- cael gwared ar y nifer penodol o oriau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- cyflwyno cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd newydd y bydd swyddogion awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i werthuso'r risg a berir gan fusnes bwyd
- cyflwyno matrics penderfynu newydd i bennu pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol yn unol â chanlyniad yr asesiad risg
- diwygiadau eraill nad ydynt yn diwygio polisi, er mwyn darparu eglurder, gwella cysondeb a bod yn gyson ag arferion presennol

## Amcanion polisi

Bwriad y datblygiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yw:

- annog defnydd mwy effeithiol o adnoddau CAs trwy wneud y canlynol:
    - blaenoriaethu rheolaethau swyddogol yn y sefydliadau risg uchaf
    - cael gwared ar rwystrau diangen i'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol, gan gynnwys ehangu'r garfan o weithwyr proffesiynol a all ymgymryd â gweithgareddau penodol a darparu hyblygrwydd i bennu dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol
- parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd a sicrhau hyder defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â'r cynllun sgorio hylendid bwyd (CSHB)

# Y cynigion manwl

## Cynnig 1: Dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol ym meysydd hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd newydd

### Y drefn bresennol

Mae'r Cod presennol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021) yn nodi bod rhaid cynnal arolygiad cychwynnol mewn sefydliad busnes bwyd newydd cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r busnes gofrestru neu pan ddaw'r ALI yn ymwybodol bod y sefydliad yn gweithredu, p'un bynnag sydd gyntaf. Mae'r Cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i CAs ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan weithredwyr busnesau bwyd (FBOs) wrth gofrestru eu sefydliadau busnesau bwyd i benderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol.

Mae'r PG presennol yn nodi, lle credir bod y sefydliad yn un risg isel, y gellir ystyried gohirio'r arolygiad cychwynnol mewn amgylchiadau lle byddai ei gynnal yn oedi ymyriadau a raglennir mewn safleoedd sy'n ymgymryd â gweithgareddau risg uchel. Yn ogystal, os bydd sefydliad wedi cofrestru 28 diwrnod cyn dechrau gweithredu, gellir gohirio'r arolygiad hyd nes y bydd wedi dechrau gweithredu.

### Y dull arfaethedig

Cynigir bod eglurhad yn cael ei roi ynghylch sut mae'r wybodaeth a ddarperir gan FBOs yn cael ei defnyddio gan CAs, a bod dull sy'n fwy seiliedig ar risg yn cael ei fabwysiadu mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau busnes bwyd newydd, sy'n cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir ar gyfer safonau bwyd.

Cynigir bod CAs yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir gan FBOs wrth gofrestru sefydliad busnes bwyd newydd (y cyfeirir ato fel asesiad bwrdd gwaith cychwynnol) cyn pen 28 diwrnod ar ôl y cofrestriad, neu o'r adeg pan ddaw'r CA yn ymwybodol bod y sefydliad yn gweithredu, p'un bynnag sydd gyntaf. Fodd bynnag, ni fyddai'r dull hwn yn berthnasol i sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004 nac i sefydliadau sy'n destun gofynion Rheoliad a gymathwyd (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, a allai barhau i gael ymweliad cychwynnol â'r safle cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Byddai'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol yn defnyddio unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan yr FBO sy'n cofrestru ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r CA yn ei hystyried yn berthnasol, a hynny er mwyn asesu sgôr perygl posib sefydliad a phenderfynu pryd i gynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol. Darperir y sgôr perygl posib hwn yn rhan 1 o'r system sgorio hylendid bwyd (a nodir yn atodiad 1 i Bennod 4 o'r Cod) sy'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- y math o fwyd a'r dull trin a thrafod
- dull prosesu
- defnyddwyr sy'n wynebu risg, gan gynnwys ystyried grwpiau risg sy'n agored i niwed

Mae'r sgoriau o'r tair elfen hyn yn cael eu hadio at ei gilydd i roi'r sgôr 'perygl posib' gyffredinol.

Cafodd Gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd (RAFB) yr ASB ei wella yn ystod haf 2024; ychwanegwyd cwestiynau newydd i gael gwybodaeth am y tair elfen a restrir uchod, a bydd yr atebion i'r rhain yn cynorthwyo CAs wrth iddynt adolygu gwybodaeth a ddarperir gan yr FBO.

Cynigir hefyd fod yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol yn weithgaredd y gellir ei wneud gan swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' cyhyd â'u bod yn gymwys.

Pan fydd sgôr perygl posib sefydliad wedi'i phennu, cynigir y byddai rheolaeth swyddogol gychwynnol yn cael ei chyflawni o fewn yr amserlenni a nodir yn nhabl 1 gan ddefnyddio dulliau a thechnegau priodol.

### Tabl 1: Amserlenni, dulliau a thechnegau ar gyfer rheolaethau hylendid bwyd swyddogol cychwynnol

| Sgôr perygl posib | Amserlenni ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol | Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 30 – 97 | Cynhelir y rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad ddechrau gweithredu, neu ar ôl i'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol gael ei gynnal, p'un bynnag sydd gyntaf | Arolygiad ffisegol neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |
| 5 – 29 | Cynhelir y rheolaeth swyddogol gychwynnol, ar sail risg, o fewn 3 mis ar ôl i'r sefydliad ddechrau gweithredu, neu ar ôl i'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol gael ei gynnal, p'un bynnag sydd gyntaf | Unrhyw ddull a thechneg ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn erthygl 14 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell, cyn belled â'u bod yn:<br>• effeithiol a phriodol o dan yr amgylchiadau<br>• gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol<br>• galluogi dilysu'r asesiad bwrdd gwaith<br>Ni ddylid cynnal rheolaethau swyddogol o bell os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i CA roi sgôr hylendid bwyd i sefydliad. |

Ar gyfer sefydliadau risg is (sef y rheiny sydd â sgôr perygl posib rhwng 5 a 29), wrth ystyried y dulliau a'r technegau effeithiol a phriodol i'w defnyddio o dan yr amgylchiadau, byddai hyn yn ystyried canllawiau perthnasol, fel Canllawiau Statudol y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). Bydd ystyried Canllawiau Statudol y CSHB yn golygu bod y sefydliadau hyn yn dal i gael archwiliad neu arolygiad ffisegol er mwyn gallu darparu sgôr CSHB.

Pan ddaw CAs yn ymwybodol bod busnes yn masnachu ond nad yw wedi cofrestru, dylid cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol yn unol â'r amserlenni uchod, gan ddechrau o'r dyddiad y daethant yn ymwybodol o'r sefydliad.

Cynigir hefyd y dylai CAs flaenoriaethu rheolaethau swyddogol cychwynnol ar gyfer sefydliadau busnes bwyd newydd, fel nad yw'r rhai â pherygl posib is yn achosi oedi gormodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol neu ddyledus mewn sefydliadau risg uwch a/neu mewn sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio. Er enghraifft, os derbynnir gwybodaeth, fel rhan o'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, sy'n nodi diffyg cydymffurfio posib mewn sefydliad, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu'r rheolaeth swyddogol gychwynnol yn y sefydliad hwnnw, er na fyddai hyn o reidrwydd yn effeithio ar sgôr perygl posib y sefydliad. Mae'r dull blaenoriaethu hwn yn gyson â'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â rheolaethau safonau bwyd cychwynnol.

## Rhesymeg dros newid

Yn 2017, comisiynodd yr ASB ymchwil i lywio gwaith ar foderneiddio'r systemau sgorio ymyriadau risg ar gyfer sefydliadau bwyd y DU. Canfu'r gwaith ymchwil hwn fod swyddogion CA yn ystyried bod y gofyniad i gynnal arolygiad cychwynnol o'r holl sefydliadau o fewn 28 diwrnod yn straen ar adnoddau, yn enwedig mewn ardaloedd trefol â throsiant busnes sylweddol. Dywedodd llawer o'r swyddogion y byddent yn croesawu dileu'r gofyniad hwn a galluogi dulliau gweithredu amgen, fel asesiadau risg bwrdd gwaith.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar FHDM wedi'i foderneiddio, cynigiwyd dull seiliedig ar risg o ymdrin mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol, gan frysbennu sefydliadau busnesau bwyd newydd.

Roedd adborth o'r ymgynghoriad yn amrywio ond, at ei gilydd, croesawyd y gallu i frysbennu a blaenoriaethu rheolaethau swyddogol yn ôl risg. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y datblygiad arfaethedig ar gyfer FHDM wedi'i foderneiddio yn or-gymhleth.

Gan ystyried yr adborth, mae dull gweithredu symlach ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol, sy'n seiliedig ar risg, wedi'i gynnig.

Mae'r dull arfaethedig yn egluro'r ddarpariaeth bresennol yn y Cod, sef bod CAs yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan FBOs wrth gofrestru eu sefydliadau busnesau bwyd i benderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol. Mae hefyd yn galluogi'r defnydd o ystod ehangach o ddulliau a thechnegau wrth gynnal rheolaethau swyddogol, gan gynnwys y rheiny a gynhelir o bell, a hynny wrth ddiogelu cysondeb yn y CSHB ar draws y tair gwlad.

Byddai'r dull arfaethedig yn galluogi CAs i ddefnyddio'u hadnoddau'n effeithiol drwy ganolbwyntio ar y sefydliadau sy'n peri'r risg uchaf, wrth ddal ati i sicrhau bod pob sefydliad yn destun rheolaethau swyddogol o fewn amserlenni priodol.

Yn seiliedig ar y data yn adroddiad blynyddol 2019–20 ar waith gorfodi awdurdodau lleol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr (LAEMS) a'r data a ddarparwyd gan CAs i'r ASB ar gyfer y flwyddyn 2022–23, mae gan 47% o sefydliadau presennol yng Nghymru sgôr perygl posib o lai na 29 a byddent wedi bod yn gymwys i'w cynnwys yn yr amserlen tri mis ar gyfer rheolaeth swyddogol gychwynnol. O'r sefydliadau hyn, roedd 97% ohonynt yng nghategori risg D ac E. Mae'r data hefyd yn dangos bod dros 99% o'r sefydliadau categori D ac E hyn yn cydymffurfio i raddau helaeth (yn unol â'r diffiniad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gyhoeddwyd yn 2021).

Mae hyn yn dangos, yn seiliedig ar y sgoriau perygl posib, y byddai CAs yn blaenoriaethu rheolaethau swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau sy'n debygol o fod â sgôr risg o A, B neu C, ac, yn seiliedig ar lefelau cydymffurfio, na fyddai'r dull arfaethedig yn cael effaith negyddol ar iechyd y cyhoedd.

Yn ogystal, byddai swyddogion nad ydynt yn meddu ar ‘gymhwyster addas’ ar gyfer hylendid bwyd, ond sy’n gymwys, yn gallu cynnal asesiad bwrdd gwaith o sefydliadau newydd, a fyddai’n sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau CAs ymhellach.

## Cynnig 2: Cyflwyno hyblygrwydd i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd o bell, o dan amgylchiadau penodol

### Y drefn bresennol

Mae Erthygl 9 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, a’r Cod presennol, yn nodi bod yn rhaid i CAs sicrhau eu bod yn cynnal rheolaethau bwyd swyddogol ar bob gweithredwr yn rheolaidd, ar sail risg ac yn ddigon aml.

Mae’n rhagnodi’r dulliau a’r technegau y gall CAs eu defnyddio wrth gynnal rheolaethau bwyd swyddogol; hynny yw, dim ond ar ôl arolygiad neu archwiliad llawn neu rannol y gellir adolygu sgôr ymyriad, ac mae’n rhaid i bob sefydliad newydd gael arolygiad cychwynnol. Mae’r PG presennol yn cynnwys asesiad o bell o ddigonolrwydd cynllun Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) a rhagofynion (nad ydynt o reidrwydd yn golygu bod angen ymweliad corfforol gwirioneddol â’r sefydliad) fel enghraifft o ddilysu.

### Y dull arfaethedig

Y dull arfaethedig yw cynyddu’r hyblygrwydd a roddir i CAs, gan ganiatáu iddynt ddefnyddio unrhyw un o’r dulliau a’r technegau ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol, gan gynnwys y rheiny a gynhelir o bell:

- mewn categorïau penodol o sefydliadau, a nodir yn y tabl(au) isod
- er mwyn ategu a llywio rheolaeth swyddogol ffisegol, er enghraifft, archwilio dogfennaeth ar gyfer systemau rheoli diogelwch bwyd heb fod ar safle’r sefydliad cyn defnyddio dulliau a thechnegau arolygu ac archwilio ar y safle
- ar gyfer gwiriadau dilynol yn dilyn rheolaeth swyddogol ffisegol ar gyfer pob categori o sefydliadau lle gall CAs wirio cydymffurfiaeth

Cynigir hefyd y gellir diwygio sgôr ymyriad os bodlonir y canlynol:

- ar ddiwedd rheolaeth swyddogol lle defnyddiwyd dulliau a thechnegau priodol ac effeithiol
- pan fo digon o wybodaeth wedi’i chasglu i gyfiawnhau adolygu sgôr yr ymyriad

- dim ond os nad yw'r sefydliad yn destun CSHB (ar gyfer hylendid bwyd yn unig) y gellir diweddaru neu ddiwygio sgôr ymyriad

Byddai'r penderfyniad i gynnal rheolaethau swyddogol neu wiriadau dilynol o bell yn nwylo pob CA yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigryw eu hunain.

**Tabl 2 a 3: Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol**

<table>
<tr><th>Sgôr ymyriad bresennol ar gyfer hylendid bwyd</th><th>Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol</th></tr>
<tr><td>A neu B</td><td><ul><li>archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol)</li></ul></td></tr>
<tr><td>C</td><td><ul><li>sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth:<br>- archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol)</li><li>sefydliadau sy'n cydymffurfio i raddau helaeth:<br>- archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol)</li></ul>Gall CAs, ar sail eiledol, ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell</td></tr>
<tr><td>D</td><td><ul><li>sefydliadau sy'n sgorio 30 neu 40 ar gyfer y math o fwyd a'r dull trin a thrafod:<br>- archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol)<br>Gall CAs, ar sail eiledol, naill ai ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell; neu gallent ddefnyddio rheolaeth answyddogol, y gellir ei chynnal yn ffisegol neu o bell</li><li>sefydliadau sy'n sgorio 5 neu 10 ar gyfer y math o fwyd a'r dull trin a thrafod:<br>- unrhyw ddull a thechneg ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell</li></ul>Gall CAs, ar sail eiledol, ddefnyddio rheolaeth answyddogol, y gellir ei chynnal yn ffisegol neu o bell</td></tr>
<tr><td>E</td><td><ul><li>unrhyw ddull a thechneg ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | cyfer yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell<br>Gall CAs, ar sail eiledol, ddefnyddio rheolaeth answyddogol, y gellir ei chynnal yn ffisegol neu o bell |

| Sgôr ymyriad ar gyfer safonau bwyd | Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|
| Ymyriad â blaenoriaeth | • archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol) |
| Pob sefydliad arall | • unrhyw ddull a thechnegau ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell |

Er mwyn helpu CAs i benderfynu ar y dulliau a'r technegau i'w defnyddio, gan gynnwys a ddylid eu cynnal o bell, cynigir bod y canlynol yn cael eu hystyried:

- diben y rheolaeth swyddogol
- pa ddulliau a thechnegau fyddai fwyaf effeithiol a phriodol o dan yr amgylchiadau – byddai hyn yn ystyried canllawiau perthnasol, fel canllawiau statudol y CSHB
- y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd yn flaenorol, gan gynnwys a gawsant eu cynnal yn ffisegol neu o bell
- a yw swyddogion yn gyfarwydd â'r sefydliad
- hanes y sefydliad ac unrhyw ddata, gwybodaeth neu gudd-wybodaeth a gafwyd am y sefydliad ers y rheolaeth swyddogol ddiwethaf
- a yw'r FBO mewn sefyllfa i gael rheolaeth swyddogol o bell
- a yw'r dechnoleg a ddefnyddir yn ystod rheolaeth swyddogol yn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch data busnes

At ddibenion y Cod, diffinnir rheolaeth swyddogol o bell fel gweithgaredd nad yw'n cael ei gynnal mewn sefydliad busnes bwyd, sy'n hwyluso'r drefn o gasglu tystiolaeth i wirio cydymffurfiaeth y sefydliad. Gallai hyn gynnwys:

- archwiliad o ddogfennaeth berthnasol wrth y ddesg, a allai gynnwys adolygu ymatebion i arolygon sydd wedi'u cwblhau, yn ogystal ag adolygu systemau rheoli diogelwch bwyd neu gofnodion monitro

- adolygu tystiolaeth ar ffurf fideo a/neu ffotograffau
- fideo-gynadledda
- archwilio gwefannau
- unrhyw offer digidol eraill sy’n galluogi gwirio cydymffurfiaeth heb fod ar safle’r sefydliad

Byddai defnyddio dulliau a thechnegau o bell yn cael ei ystyried yn rheolaeth swyddogol os yw’n gwirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Er enghraifft, archwilio dogfennaeth, fel ffotograffau, heb fod ar safle’r sefydliad busnes bwyd i wirio a yw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn flaenorol wedi’u datrys.

## Rhesymeg dros newid

Fel rhan o’r ymgynghoriad ar FHDM wedi’i foderneiddio, cynigiwyd defnyddio dulliau a thechnegau o bell ar gyfer rheolaethau swyddogol.

Roedd adborth o’r ymgynghoriad yn amrywio. Er bod rhanddeiliaid wedi cydnabod y byddai rheolaethau swyddogol o bell yn ddefnyddiol ac er iddynt eu croesawu, mynegwyd pryderon o ran a fyddent yn ddigonol i’w defnyddio er mwyn dyfarnu sgôr CSHB (yn enwedig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon lle mae cynlluniau statudol ar waith), a phryderon y byddai ond yn bosib eu defnyddio mewn amgylchiadau cyfyngedig ac y gallent greu anghysondebau rhwng CAs.

Gan ystyried yr adborth, mae’r dull arfaethedig wedi’i fireinio i fynd i’r afael â rhai o’r pryderon a fynegwyd. Yn benodol, cynigir cynyddu’r hyblygrwydd presennol yn y Cod o ran rheolaethau swyddogol o bell, gan ystyried y cynllun statudol yng Nghymru a galluogi rheolaeth swyddogol o bell dim ond lle nad yw sgôr CSHB yn cael ei dyfarnu. Mae’r dull hwn hefyd yn rhan o’r ymgynghoriad mewn perthynas â’r Model Gweithredu Safonau Bwyd arfaethedig.

Bydd y dull arfaethedig yn galluogi CAs i ddefnyddio eu hadnoddau’n effeithiol drwy ganolbwyntio arolygiadau ffisegol ar y sefydliadau risg uchaf a’r rhai y mae angen sgôr CSHB arnynt. Bydd y dull hefyd yn caniatáu i CAs ddewis cynnal rheolaethau swyddogol ar gyfer sefydliadau risg is o bell lle bo’n briodol. Bydd hefyd yn rhoi’r dewis i CAs gynnal gwiriadau dilynol o bell ar gyfer yr achosion hynny o ddiffyg cydymffurfio y gellir eu gwirio heb fod ar safle’r busnes bwyd.

Yn ogystal, byddai swyddogion nad ydynt yn meddu ar ‘gymhwyster addas’ ar gyfer hylendid bwyd, ond sy’n gymwys, yn gallu cynnal rheolaethau swyddogol o bell ar gyfer sefydliadau risg is, a fyddai’n sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau CAs ymhellach.

## Cynnig 3: Ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol eu cyflawni, os ydynt yn gymwys

### Y drefn bresennol

Mae'r Cod presennol yn nodi y gall swyddogion sy'n meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol, os ydynt yn gymwys, gael eu hawdurdodi i gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau eraill ym mhob busnes bwyd, gan gynnwys camau gorfodi perthnasol.

Mae hefyd yn nodi y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas' ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol, os ydynt yn gymwys, gael eu hawdurdodi i ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:

- ymyriadau amgen mewn sefydliadau risg is (sefydliadau categori D ac E ar gyfer hylendid bwyd)
- addysgu, cynghori a hyfforddi
- casglu gwybodaeth (ac eithrio casglu, prosesu, a rhannu cudd-wybodaeth)
- monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn
- cynnal rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau swyddogol eraill ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheoli ar y Ffin (BCPs)

### Y dull arfaethedig

Rydym yn cynnig ymestyn y gweithgareddau y gall swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas', os ydynt yn gymwys, gael eu hawdurdodi i'w cyflawni. Byddai hyn yn golygu, yn ogystal â'r gweithgareddau a restrir uchod, y gallai swyddogion nad ydynt yn meddu ar 'gymhwyster addas', os ydynt yn gymwys, wneud y canlynol:

- samplu
- cynnal rheolaethau answyddogol, gan gynnwys yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol ar gyfer sefydliadau busnesau bwyd newydd
- casglu, prosesu a rhannu cudd-wybodaeth

- cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol dyledus mewn sefydliadau â sgôr risg categori D sy'n cydymffurfio i raddau helaeth, a sefydliadau â sgôr risg categori E, sef y rhai:

    - nad ydynt yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004 nac yn destun gofynion Rheoliad a gymathwyd (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin

    - â sgôr o fwy na 10 ar gyfer 'y math o fwyd a'r dull trin a thrafod'

    - â sgôr o fwy na 0 ar gyfer 'y dull prosesu'

- cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau heblaw'r rheiny sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd, sef y rhai:

    - nad ydynt, ar sail yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, yn destun rheolaethau swyddogol cychwynnol o fewn 28 diwrnod, sy'n golygu'r rheiny sydd â sgôr perygl posib o 30 i 97

    - nad ydynt yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004 nac yn destun gofynion Rheoliad a gymathwyd (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin

- cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol dyledus mewn sefydliadau sydd â sgôr risg gynhenid o 4 o leiaf, a sgôr asesu cydymffurfiaeth o 3 o leiaf
- cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau y rhagwelir, o'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, y bydd ganddynt sgôr risg gynhenid o 5

Cynigir hefyd, wrth gynnal rheolaethau swyddogol, os canfyddir bod y categori sgôr risg (hylendid bwyd), y risg gynhenid (safonau bwyd) a/neu'r lefel cydymffurfio wedi newid, gan olygu nad yw'r sefydliad yn bodloni'r meini prawf uchod mewn perthynas â rheolaethau swyddogol cychwynnol a dyledus, yna byddai'r rheolaeth swyddogol yn cael ei chynnal cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan swyddog sy'n meddu ar gymhwyster addas, sy'n gymwys i gynnal rheolaethau swyddogol yn y math hwnnw o sefydliad.

Yn ogystal, os oes angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, byddai hyn hefyd yn cael ei wneud gan swyddog sy'n meddu ar gymhwyster addas ac sy'n gymwys i gymryd y camau gorfodi ffurfiol. Fodd bynnag, os ydynt yn gymwys, gallai swyddogion nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addas gymryd camau anffurfiol yn dilyn rheolaethau swyddogol y maent wedi'u cynnal.

Yn ôl yr arfer bresennol, byddai swyddogion nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addas yn destun goruchwyliaeth briodol. Er enghraifft, mae canlyniad y rheolaethau swyddogol y maent yn eu cynnal, a'r sgôr risg a ddarperir, yn cael eu hadolygu gan

swyddog sy’n meddu ar gymhwyster addas ac sy’n gymwys, a hynny er mwyn sicrhau bod y sgôr risg yn briodol.

## Rhesymeg dros newid

Mae swyddogion nad ydynt yn meddu ar ‘gymhwyster addas’ yn gyfyngedig o ran y mathau o weithgareddau y gallant gael eu hawdurdodi i'w cyflawni.

Ehangwyd y gweithgareddau y gallai’r swyddogion hyn eu cyflawni yn 2021 i gynnwys monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn. Fodd bynnag, yr adborth gan rai CAs oedd y dylid ehangu’r gweithgareddau ymhellach a chynnwys rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg isel.

Un o’r datblygiadau arfaethedig yr ymgynghorwyd arno fel rhan o’r Model Gweithredu Hylendid Bwyd (FHDM) wedi’i foderneiddio oedd ehangu’r gweithgareddau y gallai swyddogion nad oeddent yn meddu ar ‘gymhwyster addas eu cyflawni, pe baent yn gymwys, a oedd yn cynnwys rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg isel. Amlygodd adborth i’r datblygiad arfaethedig hwn rywfaint o hyblygrwydd ychwanegol o ran pwy all gynnal rheolaethau swyddogol. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon am y datblygiad arfaethedig, a oedd yn cynnwys: y dylai swyddogion feddu ar set sgiliau gyfannol o gymwyseddau; anghysondebau wrth asesu cymhwysedd swyddogion; ac argaeledd hyfforddiant perthnasol.

Gan gydnabod yr adborth a gafwyd, byddai’r dull arfaethedig yn ymestyn y gweithgareddau y gallai swyddogion nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addas eu cyflawni, gan gynnwys rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg isel nad ydynt yn defnyddio prosesau risg uchel.

Bydd y dull arfaethedig yn caniatáu i CAs ddefnyddio carfan ehangach o swyddogion a galluogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Er enghraifft, gallai awdurdodau unedol ddewis uwchsgilio ac awdurdodi eu swyddogion safonau bwyd a/neu fwyd anifeiliaid i gynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol mewn sefydliadau risg isel, y gellid, os yn briodol, eu cyflawni ar yr un pryd â gweithgareddau rheoleiddio eraill. Yn yr un modd, gallai CAs awdurdodi prentisiaid sy’n gweithio tuag at brentisiaeth berthnasol, os ydynt yn gymwys, i gynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg isel.

Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan CAs i’r ASB ar gyfer y flwyddyn 2022-2023, roedd 18 o swyddogion mewn perthynas â hylendid bwyd a 12 o swyddogion mewn perthynas â safonau bwyd, yn cael eu cyflogi gan CAs ond nad oeddent yn meddu ar gymhwyster addas. Mae hyn yn cynnwys swyddogion cymorth rheoleiddio a hyfforddeion sy’n gweithio tuag at gymhwyster addas. Gellid awdurdodi’r swyddogion hyn, os ydynt yn gymwys, a bod ganddynt alluedd, i gynnal y rheolaethau swyddogol a’r gweithgareddau eraill a restrir uchod. Pe bai'r holl swyddogion hyn yn

cael eu hawdurdodi, byddai'n golygu 8% o swyddogion ychwanegol mewn perthynas â hylendid a 6% ychwanegol mewn perthynas â safonau a allai gynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg is o gymharu â nifer y swyddogion sydd â chymhwyster addas.

Byddai'r hyblygrwydd hwn ar gael i CAs, gan eu galluogi i ddewis a ddylid ymestyn awdurdodiadau swyddogion cymwys. Er mwyn cefnogi CAs wrth benderfynu a yw swyddogion yn gymwys, mae'r Fframwaith Cymwyseddau, a roddwyd ar waith yn 2021, yn darparu safon y gellir asesu cymhwysedd yn ei herbyn. Mae hyn yn golygu nad yw iechyd y cyhoedd yn cael ei danseilio gan y cynnig hwn, gan y byddai angen o hyd i swyddogion allu dangos eu bod yn gymwys cyn cael eu hawdurdodi i ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ychwanegol.

## Cynnig 4: Newid yn y dull o gynnal ymyriadau mewn sefydliadau busnes bwyd sy'n perthyn i gategori risg E ar gyfer hylendid bwyd

### Y drefn bresennol

Mae'r Cod presennol yn nodi bod yn rhaid i'r sefydliadau risg isaf ar gyfer hylendid bwyd (y rhai sydd â sgôr ymyrryd o E) fod yn destun ymyriad gan CA o leiaf, a allai fod ar ffurf strategaeth orfodi amgen (AES), a hynny bob tair blynedd.

Diffinnir AES yn y Cod fel, 'dulliau monitro sefydliadau risg isel i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â chyfraith bwyd.' Mae enghreifftiau o AES yn cynnwys defnyddio holiaduron, arolygon, arolygiadau sy'n seiliedig ar brosiectau ac ymweliadau casglu gwybodaeth.

Lle mae CAs yn dewis defnyddio AES, mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid iddynt nodi eu AES yn eu cynllun gwasanaeth neu eu polisi gorfodi. Mae'r Cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i CAs sicrhau, pan ddefnyddir AES, fod sefydliadau'n parhau i fod yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol, a bod yn rhaid i'w strategaeth amlinellu sut y bydd rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal yn y sefydliadau hyn.

Mae'r PG yn cynghori, lle mae AES yn cael ei ddefnyddio gan CAs, y dylai sefydliadau fod wedi cael arolygiad cychwynnol a chael sgôr risg cyn penderfynu bod AES yn briodol yn y sefydliad hwnnw. Mae'r PG hefyd yn rhoi gwybod mai diben strategaeth CAs yw caniatáu ymyriadau mewn sefydliadau sy'n destun AES, er enghraifft, lle cafwyd cwyn gan ddefnyddiwr, a bod canran ar hap o sefydliadau yn destun arolygiad.

Nid yw'r hyblygrwydd i ddefnyddio AES yn atal CAs rhag defnyddio dulliau a thechnegau eraill, fel arolygiadau neu archwiliadau yn y sefydliadau hyn, os mai dyna'r opsiwn a ffefrir gan CAs. Yn ogystal, ni ellir defnyddio AES mewn sefydliadau

sy’n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004, gan fod yn rhaid i’r sefydliadau hyn gael rheolaeth swyddogol.

Gellir defnyddio AES hefyd ar gyfer safonau bwyd, gyda'r Cod yn nodi y gellid defnyddio unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol ar gyfer y sefydliadau risg isaf, cyhyd ag y bo’n effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau, a allai gynnwys ymyriadau o bell, neu AES.

## Y dull arfaethedig

Cynigir bod y sefydliadau risg isaf ar gyfer hylendid bwyd (y rhai sydd â sgôr ymyrryd o E) yn cael ymyriad bob tair blynedd, fel sy’n digwydd ar hyn o bryd, ond y darperir eglurhad o ba mor aml y cynhelir rheolaethau swyddogol.

Byddai hyn yn golygu bod sefydliadau yn parhau i gael ymyriad bob tair blynedd, ond byddai’r ymyriad hwn yn newid am yn ail rhwng rheolaeth swyddogol a rheolaeth answyddogol.

Gall y rheolaeth swyddogol ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg, fel sy’n bod ar hyn o bryd, a gellir ei chyflawni yn gorfforol neu o bell, ar yr amod ei bod yn effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol.

Gallai’r rheolaeth answyddogol fod yn unrhyw weithgaredd sy’n cadw cysylltiad â sefydliad, ond nad yw’n cadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol, a gellid ei wneud hefyd yn gorfforol neu o bell.

Byddai’r dull hwn hefyd yn golygu bod y term AES yn cael ei ddileu o’r Cod a’r PG ar gyfer hylendid a safonau bwyd. Mewn perthynas â safonau bwyd, byddai CAs yn dal i allu defnyddio unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol yn y sefydliadau risg isaf, gan gynnwys y rhai o bell.

## Rhesymeg dros newid

Mae’r dull presennol o ymdrin ag ymyriadau mewn sefydliadau categori E, gyda’r hyblygrwydd i ddefnyddio AES, wedi achosi dryswch o ran sut mae CAs yn cynnal ymyriadau. Mae hefyd wedi arwain at anghysondebau o ran pa mor aml y mae sefydliadau categori E yn destun rheolaethau swyddogol.

Mae Erthygl 9 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, a’r Cod, yn nodi y bydd CAs yn cynnal rheolaethau swyddogol ar bob gweithredwr yn rheolaidd, ar sail risg a chydag amlder priodol.

Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb o ran pa mor aml y mae sefydliadau categori E yn destun rheolaethau swyddogol, a’r dulliau a’r technegau sy’n briodol, cynigir y

byddai CAs yn cynnal rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol am yn ail bob tair blynedd.

Byddai'r dull arfaethedig yn rhoi hyblygrwydd i CAs ddewis unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol, fel sy'n digwyddar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai a gyflawnir o bell, ac mae'n egluro bod sefydliad yn destun rheolaeth swyddogol o leiaf bob 6 blynedd. Byddai'r dull arfaethedig hefyd yn golygu nad yw'n ofynnol bellach i CAs gael AES wedi'i nodi yn eu cynllun gwasanaeth neu eu polisi gorfodi.

Ar hyn o bryd, mae'r Cod yn nodi bod rheolaethau swyddogol risg uwch a/neu fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio, neu'r rhai sy'n debygol o fod yn risg uchel, yn cael blaenoriaeth dros reolaethau swyddogol ar gyfer y rhai sy'n risg is a/neu'n cydymffurfio. Felly, bydd adnoddau CAs yn parhau i ganolbwyntio ar y sefydliadau risg uchaf a/neu'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio, fel sy'n bod ar hyn o bryd.

Ni ragwelir y bydd y dull arfaethedig yn effeithio ar y CSHB. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, dim ond ar ôl arolygiad ffisegol neu archwiliad y byddai sgôr CSHB newydd (neu wedi'i diweddaru) yn cael ei darparu. Os defnyddir dulliau a thechnegau eraill o reolaethau swyddogol neu reolaethau answyddogol, ni fyddai'r sgôr CSHB yn cael ei diweddaru. Mae hyn yn gyson â'r dull presennol o weithredu lle nad yw sgôr CSHB yn cael ei diweddaru yn dilyn AES.

## Cynnig 5: Newid y dull o ymdrin â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

### Y drefn bresennol

Mae'r Cod presennol yn nodi bod yn rhaid i CAs sicrhau bod swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol yn cael o leiaf 20 awr o DPP y flwyddyn, sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y mae ganddynt awdurdod i'w cyflawni. Yna caiff yr 20 awr hyn eu rhannu rhwng 10 awr yn ymwneud â'r materion pwnc a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, a 10 awr ar faterion proffesiynol eraill sy'n cefnogi rôl swyddog ond nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud â bwyd.

Er mai 20 yw nifer yr oriau o DPP i'w gwneud mewn blwyddyn ar hyn o bryd, isafswm yw hwn, a chydnabyddir y gallai fod angen i rai swyddogion ymgymryd ag oriau ychwanegol gan ddibynnu ar brofiad swyddogion unigol, eu meysydd awdurdodi ac unrhyw anghenion hyfforddi penodol sydd ganddynt.

Yn ogystal, nid oes rhaid i swyddogion nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addas, fel swyddogion cymorth rheoleiddio, ymgymryd ag isafswm o oriau DPP, ond mae'n dal yn ofynnol iddynt gael hyfforddiant perthnasol sy'n briodol i'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy.

## Y dull arfaethedig

Cynigir bod swyddogion, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addas, yn ymgymryd â DPP a hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'r gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni. Fodd bynnag, ni nodir isafswm o oriau DPP. Yn lle hynny, cynigir bod yr hyfforddiant a'r DPP y mae swyddogion yn ei gael:

- yn gymesur â'u rôl a'r gweithgareddau y mae ganddynt awdurdod i'w cyflawni
- yn cael eu llywio gan asesiad cymhwysedd y swyddog
- yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Byddai disgwyl i CAs allu dangos sut y maent wedi asesu gofynion DPP pob swyddog, gan gynnwys y DPP a'r hyfforddiant sydd ar gael mewn ymateb i anghenion dysgu a datblygu'r swyddog.

## Rhesymeg dros newid

Nid yw'r ymagwedd bresennol at DPP, a rhagnodi isafswm o oriau, yn cydnabod bod pob swyddog yn wahanol, ac er mwyn cynnal neu wella eu cymhwysedd, efallai y bydd angen mwy o hyfforddiant a DPP ar rai swyddogion nag eraill. Er enghraifft, mae anghenion hyfforddi a DPP swyddog sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg is yn debygol o fod yn wahanol i anghenion swyddog sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg uchel.

Mae gennym hefyd dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos bod y dull presennol wedi arwain at swyddogion yn ymgymryd â chyrsiau hyfforddi dim ond er mwyn cyflawni'r 20 awr o DPP, er efallai nad yw'r hyfforddiant yn berthnasol i'w rôl neu nad oes ei angen i gynnal eu cymhwysedd.

Mae'r dull arfaethedig yn rhoi hyblygrwydd i CAs bennu faint o hyfforddiant a DPP sydd eu hangen ar bob swyddog i fod yn gymwys i gyflawni ei rôl a'r gweithgareddau y mae wedi'u hawdurdodi ar eu cyfer. Mae'r dull hwn yn golygu y gall CAs ystyried swyddogion fesul un i sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r DPP sydd eu hangen arnynt ac yn cydnabod y gallai fod angen mwy o hyfforddiant a DPP ar swyddog un flwyddyn nag un arall, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau penodol.

Cydnabyddir y gallai'r dull arfaethedig olygu bod rhai swyddogion yn ymgymryd â mwy nag 20 awr o hyfforddiant a DPP y flwyddyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond efallai y bydd achosion hefyd lle mae swyddogion yn cael llai gan ddibynnu ar eu rôl, y gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni a'u cymhwysedd.

## Cynnig 6: Cynllun Sgorio Ymyriadau Safonau Bwyd Newydd

Ar hyn o bryd, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn dilyn y cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad A1.2 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Mae tair rhan i'r

cynllun: Rhan 1, Y Risg Bosib, Rhan 2, Lefel Cydymffurfiaeth (Gyfredol) a Rhan 3, Hyder mewn Systemau Rheoli/Rheolaeth.

At ei gilydd, mae'r cynllun sgorio yn cwmpasu chwe elfen; mae pedwar o’r rhain yn ymwneud â graddfa, maint a gweithgareddau a gyflawnir gan y busnes a dau yn ymwneud â lefel y gydymffurfiaeth a’r hyder yn null rheoli’r busnes. At ei gilydd, mae pob un o'r chwe elfen yn rhoi cyfanswm sgôr asesiad risg. Maer sgôr honno’n darparu amlder ymyriadau’r busnes.

## Y dull arfaethedig

Mae’r cynllun sgorio ymyriadau newydd arfaethedig yn ceisio darparu asesiad mwy cywir o’r risg bosib a berir gan sefydliad busnes bwyd, gan ystyried y risg gynhenid sy’n gysylltiedig â’r busnes bwyd a lefel y gydymffurfiaeth gyfredol a, lle y bo’n briodol, y gydymffurfiaeth barhaus y mae’r busnes wedi’i dangos. Bwriad y cynllun newydd yw sicrhau bod adnoddau ALl yn cael eu targedu, mor effeithiol â phosib, tuag at y meysydd sydd â’r risg fwyaf yn y farchnad.

Mae’r cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd arfaethedig yn cynnwys cyfrifo proffil risg ar gyfer pob sefydliad busnes bwyd sy’n seiliedig ar ei ‘broffil risg gynhenid’ ac ‘asesiad cydymffurfiaeth’.

Mae’r proffil risg gynhenid yn rhoi syniad o’r risgiau sy’n gysylltiedig â sefydliad bwyd ac mae’r asesiad cydymffurfiaeth yn asesu perfformiad y gweithredwr busnes bwyd. Mae’r proffil risg gynhenid a’r asesiad cydymffurfiaeth yn cynnwys is-gategorïau sy’n cael eu sgorio’n unigol i ganiatáu asesiad cywir o wahanol elfennau risg, a fydd yn cael eu neilltuo yn unol â’r wybodaeth sydd ar gael. Yr is-gategorïau hyn yw:

1. proffil risg gynhenid:

    graddfa cyflenwad a dosbarthiad

    rhwyddineb cydymffurfio

    cymhlethdod y gadwyn gyflenwi

    cyfrifoldeb am wybodaeth

    posibilrwydd o niwed i gynnyrch

- asesu cydymffurfiaeth

    hyder mewn rheolwyr (CIM)

    lefel gydymffurfio gyfredol

    systemau a gweithdrefnau rheoli

    gwybodaeth am alergenau

Wrth gymhwyso’r cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd, bydd ALlau yn pennu’r sgôr ffactor risg sydd fwyaf perthnasol i’r sefydliad busnes bwyd. Pan fo busnes bwyd yn disgyn i fwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio, rhaid dyrannu’r sgôr isaf iddo (risg uwch), yn unol â’r egwyddor ragofalus. Cydnabyddir y bydd swyddogion cymwys yn defnyddio eu barn broffesiynol i bennu sgôr yn seiliedig ar ddefnyddio’r disgrifiadau o dan bob un o’r sgoriau risg.

Mae sgoriau unigol yn cael eu priodoli i bob is-gategori, wedyn cânt eu cyfartalu a’u talgrynnu (i’r cyfanrif agosaf) i roi’r sgoriau asesu risg a chydymffurfiaeth cynhenid cyffredinol. Defnyddir rheolau i ystyried sefyllfaoedd lle mae diffyg cydymffurfio sylweddol wedi’i nodi yn yr asesiad cydymffurfio.

Mae’r rheol a’r egwyddor hon yn rhoi sicrwydd ychwanegol o fewn y model lle nodwyd diffyg cydymffurfio sylweddol, sef sefydliad ag un diffyg cydymffurfio difrifol (sgôr o 1 o dan yr asesiad cydymffurfio), yn cael sgôr asesu cydymffurfio gyffredinol o 1 ar gyfer yr asesiad cydymffurfio waeth beth fo’r sgoriau ffactor risg cydymffurfio unigol eraill.

I gwblhau asesiad risg, bydd angen i’r swyddogion sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y busnes bwyd (er enghraifft y math o fusnes a gwybodaeth ategol) fel y gallant ystyried y peryglon posib sy’n gysylltiedig â’r sefydliad.

Er mwyn i’r dull newydd weithredu’n llwyddiannus, mae fframwaith asesu risg cyffredin wedi’i sefydlu i sicrhau dull cyson o weithio rhwng awdurdodau lleol a cheir rhagor o wybodaeth am y ffactorau risg hyn yn yr ymgynghoriad.

## Rhesymeg dros newid

Mae’r dull presennol o ymdrin â’r cynllun graddio mewn ymyriadau yn canolbwyntio ar risg gynhenid y busnes. Bydd sefydliad yn perthyn i un o dri chategori bras, A, B neu C. Ond o dan y cynllun graddio newydd, bydd sefydliad yn cael ei asesu o dan naw ffactor risg, pump yn ymwneud â risg gynhenid y sefydliad a phedwar yn ymwneud â’i reolaeth o’r risgiau hynny a’i gydymffurfiaeth â’r gofynion perthnasol. Yna, bydd y sefydliad yn dod o fewn un o ddeg amlder ymyrryd. Bydd y rhain yn amrywio o 1 mis ar gyfer sefydliadau â’r risg gynhenid uchaf a’r lefel isaf o gydymffurfiaeth i 120 mis ar gyfer y rhai sy’n cyflwyno’r risg gynhenid leiaf a’r lefel uchaf o gydymffurfiaeth. Yn y modd hwn, mae’r amlder ymyrryd yn seiliedig ar yr hyn y mae’r sefydliad yn ei wneud a’r hyn y mae’n cydymffurfio ag ef yn hytrach na chael ei arwain gan natur y busnes.

Cynhaliwyd y cynllun peilot yng Nghymru rhwng 1 Medi 2023 a 29 Chwefror 2024. Roedd yn cynnwys dau ALl yn gweithredu’r model newydd arfaethedig a dau awdurdod lleol yn gweithio yn unol â’r Cod presennol yn gweithredu fel grŵp rheoli.

Gwirfoddolodd ALlau i gymryd rhan a dewiswyd y cyfranogwyr yn seiliedig ar feini prawf penodol i ddarparu carfan gynrychioliadol i seilio ein gwerthusiad arni.

Cyn i'r cynllun peilot ddechrau, gwnaethom hyfforddi ALlau peilot ar weithredu'r model newydd gan gynnwys y cynllun risg newydd. Gwnaethom ddarparu cefnogaeth ac ymgysylltu ag ALlau drwy gydol y peilot i nodi materion a deall sut mae'r model newydd yn gweithredu'n ymarferol.
Daeth y broses werthuso ffurfiol ar gyfer y cynllun peilot cychwynnol, a gynhaliwyd gan gorff annibynnol, i'r casgliad bod y dull newydd yn effeithiol ac na nodwyd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn dilyn y cynllun peilot yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn hollbwysig, dangosodd y data gwerthuso fod y model newydd yn fwy effeithiol wrth gyfeirio swyddogion at fusnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd. Roedd canfyddiadau o gyfweliadau swyddogion fel rhan o'r gwerthusiad proses yn gyson wrth nodi bod yr agweddau canlynol yn gweithio'n dda:

- croesawyd y gallu i ail-sgorio sefydliad busnes bwyd ar ôl gweithgaredd fel ailymweld
- mae'r matrics penderfyniadau a'r cynllun asesu risg newydd yn hawdd eu deall a'u gweithredu
- mae'r matrics penderfyniadau newydd yn caniatáu i risg gael ei hasesu a'i chydbwyso ar draws gwahanol fathau o eiddo. Mae hyn yn caniatáu asesiad mwy cywir o risg
- mantais allweddol yw nad oedd gweithgynhyrchwyr bellach yn cael eu hystyried yn risg uchel yn ddiofyn
- defnyddio ymyriadau o bell mewn sefydliadau busnes bwyd priodol
- integreiddio'r model newydd i arferion gwaith presennol awdurdodau lleol
- roedd swyddogion yn cydnabod pan nad yw problemau yn lleol o bosib ac yn rhannu mwy o wybodaeth gyda'r ASB

Daeth gwerthusiad ffurfiol o gynllun peilot Cymru, a gynhaliwyd gan yr un corff annibynnol a werthusodd y cynllun peilot yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, i'r casgliad bod y model arfaethedig yn addas i'r diben, ei fod yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio ar y cyfan, gyda'r ddau awdurdod peilot o'r farn ei fod yn well na'r model presennol. Darparodd y model arfaethedig asesiad mwy cytbwys o fusnesau bwyd, gan ystyried lefel y risg gynhenid a lefel y cydymffurfio a welwyd. Pan fo lefel y cydymffurfio yn peri digon o bryder, mae'r model arfaethedig yn penderfynu y dylai'r ymyriad nesaf

fod yn ymyriad â blaenoriaeth. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod hyn yn galluogi ALlau i dargedu eu hadnoddau at fusnesau o'r fath gyda'r nod o wella cydymffurfiaeth. Ystyriwyd bod y cynllun asesu risg arfaethedig yn fuddiol ac ystyriwyd bod ychwanegu ffactor cydymffurfio annibynnol ar gyfer alergenau yn werthfawr o ran cynorthwyo ALlau i roi ffocws cymesur i alergenau o fewn ymyriadau a thargedu adnoddau lle mae'r risgiau uchaf.

## Cynnig 7: Matrics Penderfynu

### Y drefn bresennol

Yn dilyn rheolaeth bwyd swyddogol, cynhelir asesiad risg i bennu amlder yr ymyriad nesaf. Bydd sefydliad yn dod o fewn un o dri Chategori, sef Categori A, y disgwylir iddo gael rheolaeth swyddogol o leiaf bob 12 mis, Categori B, o leiaf bob 24 mis a Chategori C, o leiaf bob 60 mis. Mae'r rhain yn amlderau gofynnol, a gall ALlau ymgymryd â rheolaeth swyddogol yn gynt os oes gwybodaeth i awgrymu bod y risg wedi newid, neu fod yr ALl yn y safle, a bod materion safonau bwyd yn cael eu hasesu.

### Y dull arfaethedig

Er mwyn pennu pa mor aml y dylid cyflawni rheolaethau swyddogol, mae'r sgoriau cyfartalog ar gyfer y proffil risg cynhenid a'r asesiad risg o ran cydymffurfio yn cael eu plotio ar y matrics penderfynu.

Mae'r matrics penderfynu yn dilyn dull graddedig yn seiliedig ar risg. Mae amlder gweithgareddau rheolaeth swyddogol yn dechrau ar un mis (dwysedd uchel) ac yn symud ymlaen i amlderau llai dwys sy'n galluogi ALlau i dargedu eu hadnoddau ar y sefydliadau hynny y bernir eu bod â'r risg uchaf. Mae hyn yn cefnogi amcan y model ac yn cydnabod y bydd ALlau yn canolbwyntio eu hadnoddau ar y sefydliadau hynny lle mae angen iddynt gymryd camau prydlon i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac amddiffyn defnyddwyr.

Nid yw'r matrics penderfynu yn nodi'r gweithgaredd rheolaeth swyddogol penodol a ddylai ddigwydd. Yn hytrach, mae'r dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio unrhyw un o ddulliau a thechnegau'r rheolaethau swyddogol a nodir yn Erthygl 14 o Reoliad a gymathwyd (UE) 2017/625, naill ai'n unigol neu ar y cyd, ar yr amod eu bod yn effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Yr egwyddor gyffredinol wrth ystyried pa ddull(iau) neu dechneg(au) i'w defnyddio yw sicrhau bod y gweithgaredd rheolaeth swyddogol mwyaf effeithiol yn cael ei ddewis, a bod y swyddog yn fodlon y bydd y dull(iau) a/neu'r dechneg(au) a ddewiswyd yn caniatáu iddo wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Mae'r matrics penderfynu yn nodi lle y dylai ALlau gymryd camau prydlon i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac amddiffyn defnyddwyr. Mae'n cydnabod y byddant yn cyfeirio eu hadnoddau i weithio gyda'r busnesau bwyd hynny i sicrhau bod camau unioni priodol yn cael eu cymryd hyd nes y ceir cydymffurfiaeth. Mae'r matrics yn cyflwyno'r cysyniad o ymyriadau â blaenoriaeth er mwyn galluogi dull mwy dwys i gael ei ddefnyddio lle bo angen, ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau gwelliannau'n gyflym yn y sefydliadau busnes bwyd hyn fel bod y sefydliadau hynny'n symud i gydymffurfio, a thrwy hynny'n diogelu defnyddwyr.

Lle nodir ymyriad â blaenoriaeth fel y cam priodol, y disgwyl yw y bydd y swyddog yn dychwelyd i'r sefydliad ac yn canolbwyntio ar ddiffyg cydymffurfio yn y meysydd hynny sy'n achosi'r pryder mwyaf, yn hytrach na chynnal arolygiad llawn pellach. Wrth ymgymryd ag ymyriad â blaenoriaeth, dylai'r swyddog ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n peri pryder ac ailsgorio'r sefydliad ar y sail honno (felly gallai arolygiad/ymyriad â ffocws fod yn ddigon), gyda'r bwriad o weithio tuag at sefydliad sy'n cydymffurfio'n well a mewnbwn rheoleiddiol llai dwys. Dylai'r gwaith o ailasesu'r sefydliad adlewyrchu unrhyw welliannau a wnaed a diwygio ei broffil risg. Yn ddelfrydol, bydd y sefydliad wedi cydymffurfio, a bydd y mewnbwn rheoleiddiol sy'n deillio o hynny wedi gwella (er enghraifft symud allan o'r categori ymyriad â blaenoriaeth). Fodd bynnag, os na chymerwyd camau priodol gan y Gweithredwr Busnes Bwyd (FBO), efallai y bydd angen ymyriad â blaenoriaeth ar y sefydliad o hyd.

Dylid nodi mai'r amlderau a ddarperir mewn perthynas ag ymyriadau â blaenoriaeth yw'r amlderau isaf gofynnol. Wrth benderfynu ar yr amlder priodol, dylid ystyried yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfuwyd, yr opsiynau gorfodi sydd ar gael (er enghraifft, hysbysiadau gwella), pa mor gyflym y gellir cywiro'r achosion o ddiffyg cydymffurfio ac unrhyw weithdrefnau neu brotocolau lleol perthnasol.

Cydnabyddir y bydd amgylchiadau pan fydd gweithredwr busnes bwyd yn anfodlon neu'n methu â chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Mewn achosion o'r fath, dylai ALlau ystyried cymryd camau gorfodi ffurfiol yn unol â'u polisi gorfodi a'r hierarchaeth gorfodi. Mae ymyriadau blaenoriaethol pellach ar yr amlder rhagnodedig yn ôl disgresiwn yr ALl hyd nes y bydd y camau gorfodi ffurfiol wedi'u cwblhau.

## Rhesymeg dros newid

Diben y dull hwn yw canolbwyntio adnoddau ar geisio camau unioni lle nodwyd diffyg cydymffurfio. Ei nod yw lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng cynnal arolygiad â ffocws, unioni diffyg cydymffurfio, a chynnal ymyriad arall sy'n weddill mewn sefydliad sy'n peri llai o risg. Mae hyn yn symud y model i ddull sy'n cael ei lywio gan ganlyniadau.

## Cynnig 8: Diwygiadau eraill er mwyn darparu eglurder, gwella cysondeb a bod yn gyson ag arferion presennol

Bu rhai newidiadau eraill i'r Cod a'r PG, fel y manylir arnynt yn Atodiadau A a B i'r pecyn ymgynghori hwn, nad ydynt wedi'u hachosi gan y newidiadau a restrir uchod. Nid yw'r un o'r newidiadau eraill hyn yn diwygio polisi, ond bydd angen i CAs ymgyfarwyddo â'r diwygiadau hyn. Mae enghreifftiau o newidiadau eraill a wnaed i'r Cod a'r PG yn cynnwys:

- darparu, yn y PG, enghreifftiau lle na fyddai'r sgôr ychwanegol o 22 ar gyfer grwpiau risg sy'n agored i niwed fel y nodir yn y cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd yn berthnasol, a hynny er mwyn cynyddu cysondeb yn y defnydd o'r sgôr hon

- egluro yn y testun ynghylch cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill fod yn rhaid ystyried croeshalogi alergenau

- dyblygu canllawiau yn adran 4 o'r cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd o Ganllawiau Statudol presennol y CSHB i'r PG

- ychwanegu Prentisiaeth Broffesiynol Safonau Masnach, yn dibynnu ar y modiwlau a gwblhawyd, fel cymhwyster addas ar gyfer safonau bwyd a hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd. Cafodd y cymhwyster hwn ei gymeradwyo gan yr ASB ym mis Mai 2023, a bydd yn ehangu'r garfan o weithwyr proffesiynol a all ymgymryd â rheolaethau swyddogol ar fwyd a safonau bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd.

- ychwanegu'r cymwysterau canlynol at y rhestr o gymwysterau addas ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd:
  - Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd gan Sefydliad Technoleg Dulyn (wedi'i ddyfarnu o fis Mehefin 2012 ymlaen)

- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd gan Brifysgol Dechnolegol Dulyn

- ychwanegu Cymhwysedd Proffesiynol CTSI mewn Bwyd Anifeiliaid fel cymhwyster addas ar gyfer hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd
- diwygio terminoleg yn y Cod a'r PG fel ei fod yn gyson drwyddo draw. Mae hyn yn cynnwys defnyddio 'rhaid' yn gyson er mwyn pwysleisio'r rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'n rhaid i CAs ei dilyn, a 'dylai' er mwyn amlygu canllawiau statudol sy'n rhoi eglurhad a chanllawiau ar rwymedigaethau cyfreithiol, y mae'n rhaid i CAs roi sylw dyledus iddynt.

- symud rhai darpariaethau o'r Cod i'r PG, ac i'r gwrthwyneb, i gyd-fynd â'r newidiadau yn y terminoleg

- dileu cyfeiriadau at y Fframwaith Cymwyseddau o'r Cod, ond cadw cyfeiriadau ato yn y PG. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Cymwyseddau, yn dilyn gwaith ymgysylltu/ymgynghori priodol â rhanddeiliaid, yn gallu cael ei ddiweddaru mewn modd mwy ystwyth.
- egluro'r canllawiau ar asesiadau cymhwysedd priodol yn y Cod
- dileu cyfeiriadau at y PG o'r Cod er mwyn sicrhau bod y PG, yn dilyn gwaith ymgysylltu/ymgynghori priodol â rhanddeiliaid, yn gallu cael eu diweddaru mewn modd mwy ystwyth
- dileu cyfeiriadau at y Cytundeb Fframwaith, gan fod y darpariaethau perthnasol o'r Cytundeb Fframwaith eisoes wedi'u cynnwys yn y Cod a PG. Rhagwelir na fyddai'r Cytundeb Fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yn y dyfodol, pan fydd y Cod Bwyd Anifeiliaid wedi'i adolygu.
- dileu cyfeiriadau at rybuddion syml i ystyried Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 sy'n dileu'r defnydd o'r term 'rhybudd syml' ac nad yw'n cynnwys CA fel awdurdodau sy'n gallu cyflwyno rhybuddion dargyfeiriol neu gymunedol

Mae Atodiadau A a B i'r pecyn ymgynghori hwn yn rhoi trosolwg o'r newidiadau ac yn rhoi manylion y darpariaethau sydd wedi symud o'r Cod i'r PG ac i'r gwrthwyneb.

# Effeithiau

## Costau: Model Gweithredu Safonau Bwyd

### Costau i awdurdodau lleol

**Costau ymgyfarwyddo**

Bydd yn rhaid i bob swyddog sy'n cynnal rheolaethau swyddogol hylendid a safonau bwyd ddarllen a deall y Canllawiau Ymarfer a'r newidiadau i'r Cod, gan gynnwys cyflwyno'r FSDM fel y bo'n briodol.

Amcangyfrifir yr amser ymgyfarwyddo untro o oddeutu 6 awr drwy rannu cyfanswm nifer geiriau'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer, gan gynnwys atodiadau (96,755) â nifer cyfartalog y geiriau y gall person eu darllen y funud, ar gyfer testun rhyddiaith (275).

Yng Nghymru, mae 22 o awdurdodau lleol a 322 o swyddogion cymwys yn ymwneud â chynnal rheolaethau hylendid a safonau bwyd (132 ar gyfer hylendid ac 190 ar gyfer safonau), ar 31 Mawrth 2024. Daw hyn o ddata a roddwyd i'r ASB gan awdurdodau cymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 – 24.

Rydym yn tybio y bydd angen i bob swyddog iechyd yr amgylchedd a phob swyddog safonau masnach ymgyfarwyddo â'r newidiadau, ochr yn ochr â 47 o swyddogion

arweiniol a 35 o swyddogion cymorth rheoleiddiol. Gallai'r dybiaeth hon olygu taw goramcangyfrif yw'r costau a gyflwynir isod, os nad yw rhai swyddogion hylendid, nad ydynt yn ymwneud â gwasanaeth deuol, yn dymuno ymgyfarwyddo ag elfennau safonau'r Cod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd llawer yn ymgyfarwyddo â'r newidiadau, fel y gallant ddeall yn llawn yr effaith bosib ar eu gwaith.

Mae costau ymgyfarwyddo'n cael eu mesur trwy luosi cost cyflogau'r swyddogion perthnasol gyda'r amser a dreulir ar ymgyfarwyddo. Mae gwybodaeth awdurdodau lleol, a gasglwyd yn flaenorol gan yr ASB, yn awgrymu mai gwerth amser swyddog diogelu'r cyhoedd yw £53.35, wrth gynnal ymarferion adennill costau. Mae amser swyddog arweiniol yn werth £64.94 ac mae amser swyddog cymorth rheoleiddiol yn werth £40.91.

Mae lluosi hyn â'r amser a dreulir ar ymgyfarwyddo, nifer y swyddogion safonau bwyd a hylendid bwyd yng Nghymru a'u cyflogau priodol yn creu cyfanswm cost ymgyfarwyddo o £127,000.

**Costau ymgyfarwyddo (newidiadau i'r Systemau Gwybodaeth Reoli Gwybodaeth (MIS))**

Er mwyn rhoi'r model safonau bwyd newydd ar waith, bydd angen gwneud newidiadau i'r MIS a ddefnyddir gan awdurdodau lleol.

Bydd yn rhaid i swyddogion awdurdodau lleol sy'n cynnal rheolaethau swyddogol safonau bwyd ymgyfarwyddo â'r newidiadau i'w MIS.

Tybir y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bob swyddog bwyd sy'n ymgymryd â rheolaethau swyddogol safonau bwyd yng Nghymru. Bydd y trefniadau ar ygfer ymgyfarwyddo â'r MIS diweddariedig yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr MIS. Tybiwn y bydd yn cymryd 2 awr yr un ar gyfartaledd i swyddogion arweiniol, swyddogion diogelu'r cyhoedd a swyddogion cymorth rheoleiddiol ymgyfarwyddo â newidiadau i'r MIS, a bydd costau'r broses ymgyfarwyddo yn dod i gyfanswm o £43,300.

**Costau hyfforddi swyddogion awdurdodau lleol**

Rydym yn rhagweld y bydd angen i bob swyddog sy'n cynnal rheolaethau swyddogol safonau bwyd gael un diwrnod o hyfforddiant i ddeall y model gweithredu safonau bwyd diwygiedig. Felly, tybiwn y bydd angen i bob un o'r 371 o swyddogion dreulio tua 8 awr yn gwneud yr hyfforddiant. Darperir yr hyfforddiant hwn gan yr ASB.

Mae costau hyfforddiant yn cael eu mesur trwy luosi cost amser y swyddogion perthnasol gyda'r amser a dreulir ar hyfforddiant. Gan ddefnyddio'r costau fesul awr uchod, mae hyn yn gyfanswm o £173,300 ar gyfer holl swyddogion Cymru.

Costau cyfle yw'r costau hyfforddi. Bydd angen i swyddogion awdurdodau lleol roi rhywfaint o'u hamser i gael yr hyfforddiant gofynnol. Felly, nid yw'r costau hyn yn gostau ariannol ychwanegol.

### Costau MIS/TG o symud i'r model newydd

Rydym yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol sy'n defnyddio Idox MIS yn ei gwneud yn ofynnol i'w data risg presennol gael eu trosi i'r cynllun risg enghreifftiol newydd a'u symud i'w cynnyrch MIS. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gofyn am weithgareddau fel glanhau data, mapio rhwng y ddwy system, a pheth rheolaeth prosiect.

Bydd yr ASB yn cynnal yr ymarfer trosi ar ran awdurdodau lleol lle bo angen. Fodd bynnag, bydd angen i awdurdodau lleol gynnal ymarfer dilysu ar sampl ar hap o 10% o'r data a fudwyd, a hynny er mwyn sicrhau cywirdeb.

### Costau asesu bwrdd gwaith cychwynnol

Byddai'r dull seiliedig ar risg arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaethu ac amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol yn golygu bod CAs yn cynnal asesiad bwrdd gwaith o sefydliadau newydd i bennu'r perygl posib.

### Costau systemau/gweithdrefnau awdurdodau lleol newydd

Wrth i'r model safonau bwyd newydd gyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn cynnal eu hymyriadau safonau bwyd, byddem yn disgwyl y bydd angen i awdurdodau lleol ddiweddaru eu systemau gweinyddu, eu gweithdrefnau a'u gwaith papur.

### Ymweliadau ychwanegol â busnesau nad ydynt yn cydymffurfio

Nod y model arfaethedig yw adnabod yn well y risg a berir gan weithredwyr busnesau bwyd. Os yw'r model yn cyflawni'r nod hwn, gallai hyn arwain at ddarganfod mwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio, ac ymweliadau pellach gan CAs. Gallai hyn olygu costau ychwanegol.

Mae'n anodd amcangyfrif a fydd angen ymweliadau ychwanegol neu faint ohonynt. Bydd hyn yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae busnesau yn cydymffurfio eto ac i raddau, nodweddion lleol. O dan y model arfaethedig, gallai CAs ddewis o ystod ehangach o opsiynau ar gyfer amlderau ymyrryd. Efallai y bydd swyddogion am fanteisio ar hyn os byddant yn teimlo bod ymweliadau amlach yn briodol i rai busnesau.

Dangosodd y data a gasglwyd o werthusiad y peilot yng Nghymru fod 35% o safleoedd yn profi cyfnod byrrach tan ei ymyriad nesaf o dan y cynllun arfaethedig o

gymharu â’r cynllun presennol. Dangosodd hefyd nad oedd gwahaniaeth yn yr amlderau ymyrryd yn achos 25% o safleoedd, a bod rhaid i 40% o safleoedd aros am gyfnod hirach tan eu hymyriadau nesaf o dan y cynllun arfaethedig. Fodd bynnag, cynyddodd nifer yr ymyriadau y disgwylir eu cynnal yn y 12 mis nesaf 14%.

Gan mai dim ond dau awdurdod lleol a oedd yn rhan o dreialu’r model arfaethedig yng Nghymru, ni ellir ystyried y canlyniadau fel rhai sy’n cynrychioli Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae canfyddiadau’r gwerthusiad yn awgrymu y byddai’r model arfaethedig yn gweithio yn unol â’i fwriad yng Nghymru. Dangosodd y gwerthusiad fod y model yn nodi risg yn well a’i fod yn debygol o arwain at ganfod nifer uwch o achosion o ddiffyg cydymffurfio o ganlyniad. Oherwydd hyn, mae’n rhesymol disgwyl rhywfaint o gynnydd yn nifer yr arolygiadau sydd i’w cynnal.

Fodd bynnag, gall nifer cynyddol o ymyriadau yn y tymor byr arwain at ostyngiad yn y tymor hir, gan fod gan fusnesau fwy o gymhelliant i gydymffurfio eto.

## Costau i’r diwydiant

**Effaith y cynnig o ran y dull o ymdrin â sefydliadau risg isel**

Ni ragwelir y bydd y dull arfaethedig o ymdrin â sefydliadau risg isel yn effeithio ar fusnesau.

Byddai’r dull gweithredu arfaethedig yn golygu bod sefydliadau risg isel yn cael ymyriad bob tair blynedd, gyda rheolaeth swyddogol a rheolaeth answyddogol am yn ail.

Yn yr un modd, ni ragwelir ychwaith y bydd yr hyblygrwydd i benderfynu pa ddulliau a thechnegau rheolaethau swyddogol i’w defnyddio yn effeithio ar fusnesau, gan fod gan CAs hyblygrwydd eisoes i bennu’r math o ymyriad i’w gynnal mewn sefydliadau risg isel. Mae’r hyblygrwydd arfaethedig yn golygu, os yw CAs yn defnyddio arolygon fel gweithdrefn orfodi amgen ar hyn o bryd, yna cyn belled â’u bod yn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol, gallant barhau i ddefnyddio arolygon fel ffordd o gynnal rheolaethau swyddogol, yn ogystal ag arolwg casglu gwybodaeth ar gyfer rheolaethau answyddogol.

**Costau baich rheoleiddio ar fusnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio**

Nod y model safonau bwyd newydd yw newid amlder rheolaethau swyddogol safonau bwyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth well o lefel y risg y mae sefydliad busnes bwyd yn ei pheri. Mae lefel y risg yn ystyried y risgiau cynhenid sy’n gysylltiedig â sefydliad busnes bwyd a lefel eu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd. A phopeth arall yn gyfartal, bydd busnesau risg uchel yn cael eu harolygu’n amlach na busnesau risg isel.

Bydd nifer cynyddol o arolygiadau yn arwain at gost amser i fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio i ymdrin â'r arolygiadau ychwanegol. Fel y nodwyd uchod, canfu gwerthusiad o'r peilot fod nifer yr arolygiadau gofynnol wedi cynyddu 14% yn ystod peilot y model yng Nghymru.

Dangosodd y gwerthusiad hefyd fod busnesau a oedd yn cydymffurfio yn elwa ar gael eu harolygu'n llai aml. Felly, disgwylir i feichiau rheoleiddiol gael eu trosglwyddo o fusnesau sy'n cydymffurfio i fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio.

Gan mai dim ond dau awdurdod lleol a oedd yn rhan o dreialu'r model arfaethedig yng Nghymru, mae'r canlyniadau'n annhebygol o gynrychioli Cymru gyfan. Fodd bynnag, os yw'r model yn gweithio yn ôl y bwriad (ac mae'r peilot yn awgrymu y bydd yn gwneud hynny), mae'n debygol, yn y tymor byr, y bydd CAs yn cynyddu nifer yr arolygiadau a gynhelir mewn busnesau nad ydynt yn cydymffurfio. Dros amser, disgwylir i'r rhain leihau, wrth i fusnesau gydymffurfio eto.

## Costau i'r ASB

**Paratoi a symud data i'r model newydd (cost trosi)**

Bydd yr ASB yn cynnal yr ymarfer trosi data ar ran awdurdodau lleol lle bo angen. Mae hyn yn golygu symud data o'r cynllun sgorio risg a'r amlderau ymyrryd presennol i'r cynllun sgorio newydd a'r matrics penderfyniadau. Bydd angen i awdurdodau lleol ddarparu tîm bach i ddilysu sampl o'r data ar gyfer prosesau sicrhau ansawdd ac ail-integreiddio'r data yn ôl i systemau awdurdodau lleol.

**Cefnogaeth yr ASB i awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod cyflwyno**

Bydd staff yr ASB yn darparu cymorth penodol i awdurdodau lleol yn ystod cyfnod cyflwyno'r model a fydd yn para chwe mis.

## Buddion i awdurdodau lleol

**Sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau**

Mae mwyafrif y prif gynigion yn galluogi CAs i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u hadnoddau.

Bydd y cynnig i gyflwyno dull sy'n seiliedig ar risg o ymdrin â'r amserlenni ar gyfer blaenoriaethu a chynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol yn galluogi CAs i ddefnyddio eu hadnoddau'n effeithiol, wrth sicrhau bod sefydliadau'n destun rheolaethau swyddogol yn unol â'r amserlenni priodol. Yn ogystal, gallai swyddogion cymorth rheoleiddiol gynnal asesiad bwrdd gwaith o sefydliadau busnes bwyd newydd a rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau risg is.

Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosib i awdurdodau lleol elwa ar yr hyblygrwydd ychwanegol hwn ar unwaith. Yn gyntaf oll, dim ond CAs sydd â swyddogion yn gweithio yn y rôl eisoes fydd yn gallu elwa ar yr hyblygrwydd, ac mae 35 o swyddogion cymorth rheoleiddiol yng Nghymru ar hyn o bryd. Hyd yn oed pe bai'r nifer hwn yn cynyddu, efallai y bydd angen hyfforddiant a chymorth arnynt i ennill yr wybodaeth a'r sgiliau gofynnol. Hefyd, mae'n bosib y bydd angen DPP blynyddol pellach arnynt i gydnabod y gweithgareddau ychwanegol y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni.

Yn yr un modd, gallai'r hyblygrwydd arfaethedig i gynnal rhai rheolaethau safonau bwyd swyddogol o bell, lle bo'n briodol, hefyd helpu swyddogion i arbed amser a chostau teithio, gan arwain at ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau CA. Gall llai o deithio hefyd arwain at fudd amgylcheddol oherwydd gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid.

Nid yw'n glir i ba raddau y bydd CAs unigol yn manteisio ar yr hyblygrwydd hwn. Yn ogystal, gallai swyddogion ddewis parhau i gynnal rheolaethau swyddogol ar y safle oherwydd swyddogaethau eraill  y mae CAs yn gyfrifol amdanynt, sy'n golygu bod angen cynnal ymweliad ar y safle.

**Mwy o effeithiolrwydd o ran adnoddau awdurdodau lleol, gan arwain at lefelau cydymffurfio uwch yn y tymor hir**

Fel y nodwyd, bydd y model safonau bwyd newydd yn targedu adnoddau awdurdodau lleol yn well tuag at y safleoedd risg uchaf. Bydd amlder rheolaethau swyddogol safonau bwyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth well o lefel y risg y mae busnes bwyd yn ei pheri. Tybir y bydd hyn o fudd i awdurdodau lleol, gan y byddant yn defnyddio'r un adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon – drwy gynnal rheolaethau swyddogol ar gyfer y busnesau sydd â'r risg uchaf lle byddant yn nodi mwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Mae gwerthusiad cynllun peilot yr FSDM yng Nghymru yn awgrymu y bydd y model arfaethedig yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu asesiad mwy cywir o fusnesau bwyd. Mae adborth gan yr awdurdodau lleol hynny a gymerodd ran yn y peilot yn awgrymu bod y model arfaethedig yn cyd-fynd yn well â'r ffordd y maent yn credu y dylai'r gwasanaeth safonau bwyd fod yn gweithredu.

Mae'r adroddiad gwerthuso hefyd yn awgrymu bod y safleoedd yng Nghymru y gwnaeth awdurdodau lleol y peilot ymweld â nhw yn fwy tebygol o beidio â chydymffurfio'n fras na'r awdurdodau lleol eraill, a oedd yn gweithredu fel grŵp rheoli.

Fel y dangosodd y peilot yng Nghymru, mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer yr arolygiadau sydd eu hangen yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid oedd y peilot

yng Nghymru yn gallu asesu’r effaith hirdymor. Disgwylir, yn y tymor hir, y bydd yr FSDM yn sefydlogi, gyda nifer yr arolygiadau sydd eu hangen yn lleihau. Bydd y cynnydd tymor byr mewn amlder arolygiadau ar gyfer busnesau nad ydynt yn cydymffurfio yn rhoi’r cymhelliant a’r cymorth sydd eu hangen arnynt i gydymffurfio â’r gyfraith.

Bydd caniatáu i adnoddau awdurdodau lleol gael eu targedu’n fwy effeithiol, hefyd yn lleihau’r tebygolrwydd y bydd digwyddiadau sy’n ymwneud â busnesau bwyd yn codi, gan leihau faint o adnoddau awdurdodau lleol y bydd eu hangen i fynd i’r afael â’r rhain.

**Arbed amser oherwydd dulliau newydd o gynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol**

Mae’r model safonau bwyd newydd yn cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran y dulliau a’r technegau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gynnal rheolaethau swyddogol. Er enghraifft, nod Ymyriadau o Bell wedi’u Targedu (TRIs) yw monitro gweithgareddau busnesau risg isel o bell, heb fod angen cynnal archwiliad ar y safle.

Bydd y dull newydd hwn, os caiff ei ddefnyddio’n briodol, yn helpu swyddogion awdurdodau lleol i arbed amser, gan na fydd angen iddynt deithio i safle’r busnes i gynnal rheolaethau swyddogol.

## Buddion i ddefnyddwyr

Rhagwelir y bydd y cynigion yn gwella ansawdd a chysondeb gweithgareddau rheoli bwyd ac yn sicrhau y bydd adnoddau CA yn canolbwyntio ar y sefydliadau risg uchaf ac, felly, yn cael eu defnyddio’n effeithiol. Mae hyn yn golygu y bydd defnyddwyr yn cael eu diogelu’n well trwy ddyrannu adnoddau’n fwy effeithlon, gan sicrhau bod y rheolaethau hyn mor effeithiol â phosib wrth ddiogelu defnyddwyr.

**Diogelu defnyddwyr a’r cyhoedd yn well**

Nod y model newydd yw lleihau nifer y cynhyrchion niweidiol neu gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio sy’n cyrraedd y farchnad trwy weithredu ar fater wrth wraidd y broblem neu ar yr adeg fwyaf priodol yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Wrth i fusnesau bwyd gydymffurfio’n well, rydym yn disgwyl i nifer y cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio sy’n cyrraedd defnyddwyr leihau dros amser, gan wella diogelwch defnyddwyr.

Rydym yn rhagweld y bydd defnyddwyr yn fwy hyderus bod y bwyd y maent yn ei brynu yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, a bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir.

## Costau: Model Gweithredu Hylendid Bwyd

**Costau i awdurdodau lleol**

Ni ragwelir unrhyw gostau ymgyfarwyddo ychwanegol, gan y tybir y bydd swyddogion yn darllen y Cod yn llawn ac yn ymgyfarwyddo â'r newidiadau i'r FHDM, ochr yn ochr â newidiadau eraill.

Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i swyddogion ymgymryd ag 1.25 awr ychwanegol o hyfforddiant mewn perthynas â'r newidiadau i'r FHDM. Gan ddefnyddio'r cyfraddau fesul awr uchod, mae hyn yn cyfateb i gost o £27,100 er mwyn hyfforddi holl swyddogion Cymru.

### Y gost i'r diwydiant

**Effaith y cynnig i ddiwygio amserlenni ar gyfer ymgymryd â rheolaethau swyddogol cychwynnol**

Gallai'r dull gweithredu seiliedig ar risg arfaethedig mewn perthynas â blaenoriaethu ac amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol olygu na fydd sefydliadau risg is yn cael sgôr gychwynnol drwy'r CSHB am hyd at 3 mis a 28 diwrnod, o gymharu â 28 diwrnod ar hyn o bryd. Yn gyfreithiol, ni fyddai hyn yn atal y sefydliadau rhag masnachu, ond gallai effeithio ar eu gallu i fasnachu ar rai marchnadoedd a llwyfannau ar-lein, pe bai'r llwyfannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael sgôr CSHB cyn masnachu. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata'r CSHB rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, ychydig dros 2.5 mis oedd yr amser aros cyfartalog ar gyfer sgôr gychwynnol drwy'r CSHB ledled Cymru. Felly, mae'r effaith ychwanegol o gymharu â'r *status quo* yn debygol o fod yn fach.

# Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

**Model Gweithredu Hylendid Bwyd (FHDM)**

Mae gweithgareddau ymgysylltu eang wedi'u cynnal drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion hyn.

Dechreuodd gwaith i foderneiddio'r FHDM yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Medi 2021. Gwnaethom sefydlu Gweithgor Awdurdodau Lleol/ASB i ddarparu mecanwaith cydweithio ar draws y tair gwlad i foderneiddio'r model. Helpodd y Grŵp i gynnal adolygiad beirniadol a llywio ein ffordd o feddwl am y datblygiadau arfaethedig.

Ategwyd y gwaith ymgysylltu â'r Gweithgor gan naw digwyddiad ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar draws y tair gwlad, a gweminar ar-lein yn ystod 2023. Ochr yn

ochr â hyn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y datblygiadau arfaethedig, yn cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori hwnnw, rydym wedi mireinio'r cynigion sy'n destun yr ymgynghoriad hwn, a'u datblygu ymhellach.

**Model Gweithredu Safonau Bwyd**

Mae gweithgareddau ymgysylltu eang wedi'u cynnal drwy gydol y broses po ddatblygu'r model gweithredu safonau bwyd newydd, cyn i'r cynlluniau peilot gychwyn ar draws y tair gwlad.

Ar ddechrau'r prosiect, ffurfiwyd Gweithgor Safonau Bwyd (FSWG), a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI), y diwydiant a Gwasanaeth Gwyddonol y Dadansoddwr Cyhoeddus. Roedd yr FSWG yn allweddol wrth ddylunio'r model gweithredu newydd a gweithio drwy heriau a rhwystrau posib.

Ategwyd gwaith y FSWG gan ddwy rownd o ddigwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn 2019. Roedd y digwyddiadau hyn yn ceisio mewnbwn ac adborth gan y gymuned orfodi ehangach ar ein cynigion. Roedd y gweithgarwch hwn wedi arwain at fireinio'r model ymhellach cyn i'r cynlluniau peilot ddechrau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, cafodd y model ei fireinio ymhellach, a chafodd y model diwygiedig hwn ei dreialu yng Nghymru i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr ASB yn dadansoddi'r ymatebion, yn gwneud unrhyw ddiwygiadau perthnasol i'r Cod a'r PG, ac, o fewn tri mis i'r ymgynghoriad ddod i ben, yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law a'u rhannu ar ein gwefan.

## Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn

Er mwyn i ni allu deall eich ymatebion yn llawn, a'u hystyried yn ddigonol, ewch ati i egluro, gan roi tystiolaeth os yn bosibl, unrhyw atebion i'r wyth cwestiwn sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (gweler yr adran Ymatebion isod).

## Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1) Mewn perthynas â chynnig 1 – dull wedi'i ddiweddaru sy'n seiliedig ar risg o ran blaenoriaethu a gosod amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau bwyd newydd:

   a) A ydych yn credu y bydd y dull hwn yn galluogi CAs i ddefnyddio'u hadnoddau presennol yn fwy effeithiol? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

   b) Os ydych yn ymateb ar ran CA, pa mor hir y byddech yn amcangyfrif y byddai'n ei gymryd, o safbwynt hylendid bwyd, i gynnal asesiad bwrdd gwaith ar gyfer busnes bwyd newydd?

   c) A fyddech yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull sy'n cael ei gynnig ar gyfer amserlenni a ddarperir ar gyfer rheolaethau cychwynnol pob sefydliad bwyd?

   d) Bydd yr amserlenni ar gyfer rheolaethau swyddogol dyledus yn parhau fel y maent ar hyn o bryd, sef 28 diwrnod, ar gyfer pob sefydliad. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â chadw'r amserlenni ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol dyledus yn 28 diwrnod? Os nad ydych, pam?

2) Mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer cyflwyno hyblygrwydd o ran dulliau a thechnegau rheolaethau swyddogol, gan gynnwys cynnal rheolaethau swyddogol o bell, fel y disgrifir o dan gynnig 2:

   a) A ydych yn credu y bydd yr hyblygrwydd yn galluogi CAs i ddefnyddio'u hadnoddau presennol yn fwy effeithiol? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

   b) Os ydych yn ymateb ar ran CA, a fyddech, yn defnyddio'r hyblygrwydd hwn, pe bai'n cael ei roi ar waith, ac yn awdurdodi swyddogion cymwys i ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol? Os nad ydych, pam?

   c) Cynigir y gellir newid sgoriau risg ymyrryd gan ddefnyddio rheolaethau swyddogol ar wahân i arolygu neu archwilio. A ydych yn credu y gellid hefyd diweddaru sgôr y CSHB yn seiliedig ar ystod ehangach o ddulliau a thechnegau, cyn belled â bod digon o dystiolaeth yn cael ei chasglu i gyfiawnhau'r adolygiad? Os nad ydych, pam?

   d) Os ydych yn ymateb ar ran CA, a fyddai'r ehangu arfaethedig ar y dulliau a'r technegau y gellir eu defnyddio i ddiweddaru sgôr ymyrryd busnesau risg uchel yn effeithio ar y modd y caiff data ei uwchlwytho o'ch MIS i borth y CSHB? Os felly, rhowch fanylion yr effaith bosib.

3) Mewn perthynas â chynnig 3, sef ymestyn yr hyblygrwydd o ran pwy all gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill:

   a) A ydych yn credu y bydd yr hyblygrwydd yn galluogi CAs i ddefnyddio'u hadnoddau presennol yn fwy effeithiol? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

   b) Os ydych yn ymateb ar ran CA, a fyddech yn defnyddio'r hyblygrwydd, pe bai'n cael ei roi ar waith, ac yn awdurdodi swyddogion cymwys i ymgymryd â gweithgareddau

ychwanegol? Ac os felly, faint o swyddogion yr ydych yn rhagweld y byddech yn eu hawdurdodi? Os nad ydych, pam?

4) Mewn perthynas â chynnig 4, sef eglurhad ar y dull o ymdrin ag ymyriadau mewn sefydliadau categori E, a ydych yn ystyried y bydd y dull gweithredu arfaethedig yn darparu eglurder a chysondeb o ran amlder rheolaethau swyddogol yn y sefydliadau hyn? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

5) A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau arfaethedig i'r cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol ddefnyddio eu hadnoddau presennol yn fwy effeithiol drwy wella'r ffordd y caiff lefelau risg a chydymffurfio sy'n gysylltiedig â busnes bwyd eu hasesu? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y model newydd sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

6) A ydych yn cytuno bod yr amlderau arfaethedig ar gyfer rheolaethau swyddogol, a nodir yn y matrics penderfyniadau, o fewn y cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd newydd yn briodol ar sail y lefelau risg a chydymffurfio sy'n gysylltiedig â'r busnes bwyd? Os nad ydych, nodwch unrhyw bryderon sydd gennych ynghylch yr amlderau arfaethedig.

7) Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, pe bai'r model gweithredu safonau bwyd yn cael ei gynnwys yn y Cod, bydd yr ASB mewn sefyllfa i ddarparu cymorth yn yr un modd ag y gwnaed wrth ei gyflwyno yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y bwriad yw cynnwys cyfnod pontio ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. O ystyried bod y gwaith i ddiweddaru darparwyr MIS wedi'u cynnal yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a ydych yn credu bod cyfnod pontio o 6 mis, gyda chymorth a hyfforddiant gan yr ASB, yn ddigonol?

8) Mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i faint o hyfforddiant a DPP y dylai swyddogion ymgymryd â nhw yn flynyddol, a ydych yn credu y bydd y dull yn rhoi mwy o hyblygrwydd i CAs bennu lefelau priodol o DPP a hyfforddiant y mae swyddogion yn ymgymryd â nhw? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

9) Mewn perthynas ag effeithiau cynnig 8 – diwygiadau eraill sy'n darparu eglurder, gwella cysondeb a bod yn gyson ag arferion presennol:

   a) A ydych yn ystyried bod yr enghreifftiau lle na fyddai'r sgôr ychwanegol o 22 ar gyfer grwpiau risg sy'n agored i niwed yn cael ei defnyddio, yn rhoi mwy o eglurder ac y bydd yn gwella cysondeb wrth gymhwyso'r sgôr? Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

   b) A ydych yn ystyried y bydd symud y canllawiau ar rannau dau a thri o'r cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd o'r Canllawiau Statudol i'r PG yn gwella eglurder o ran lle y gellir dod o hyd i'r canllawiau?  Os nad ydych, pam? (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

   c) A oes gennych unrhyw wrthwynebiad i gynnwys y cymwysterau canlynol:

      i) Prentisiaeth Broffesiynol Safonau Masnach gyda'r modiwl bwyd fel cymhwyster addas ar gyfer safonau bwyd

ii) Prentisiaeth Broffesiynol Safonau Masnach gyda’r modiwl bwyd anifeiliaid fel cymhwyster addas ar gyfer hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd

iii) Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd gan Sefydliad Technoleg Dulyn (wedi’i ddyfarnu o fis Mehefin 2012 ymlaen)

iv) Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Brifysgol Dechnolegol Dulyn

10) Os oes gennych unrhyw wrthwynebiad, rhowch resymau dros y rhain. (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

11) A ydych yn credu bod y diwygiadau i’r derminoleg yn y Cod a’r PG wedi gwella eglurder a chysondeb rhwng y dogfennau? Os nad ydych, pam? (Nodwch pa adrannau ac unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham).

12) A ydych yn cytuno neu’n anghytuno â dileu cyfeiriadau at y Fframwaith Cymwyseddau o’r Cod, ond cadw cyfeiriadau ato yn y PG. Eglurwch y prif resymau dros eich ateb. (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

13) A ydych yn cytuno neu’n anghytuno â dileu cyfeiriadau at y PG a’r Cytundeb Fframwaith o’r Cod? Eglurwch y prif resymau dros eich ateb. (Nodwch unrhyw agweddau ar y cynnig sydd angen eu hystyried ymhellach, a pham)

14) A yw cynllun/cyflwyniad y diwygiadau arfaethedig i’r Cod yn hwyluso dehongliad cyson? Os nad dyma’r achos, sut y gellid eu gwella?

15) Mewn perthynas ag effeithiau:

a) A ydych yn cytuno neu’n anghytuno â’n hasesiad o’r effeithiau ar CAs a’n rhagdybiaethau mewn perthynas â gwaith ymgyfarwyddo a hyfforddi sy’n deillio o’r newidiadau arfaethedig i’r Cod? Eglurwch y prif resymau dros eich ateb.

b) A ydych yn cytuno neu’n anghytuno â'n hasesiad o’r effeithiau ar CAs mewn perthynas â newidiadau i weithdrefnau? Eglurwch y prif resymau dros eich ateb.

c) Os ydych yn ymateb ar ran CA, pa mor hir y byddech yn amcangyfrif y bydd yn ei gymryd i ddiweddaru gweithdrefnau pe bai’r cynigion yn cael eu rhoi ar waith? Os ydych yn darparu amcangyfrif, eglurwch pa gynnig (neu gynigion) sydd dan sylw.

d) A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill o roi’r prif gynigion y manylir arnynt ar waith, y tu hwnt i’r rheiny a nodwyd gennym? Lle bo’n bosib, eglurwch eich safbwyntiau, pa gynnig (neu gynigion) sydd dan sylw, a darparwch dystiolaeth fesuradwy (er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â diweddaru eich systemau gweinyddol, gweithdrefnau presennol, manteision mwy o hyblygrwydd i ddyrannu staff i weithgareddau).

e) A ydych chi’n rhagweld unrhyw heriau o ran rhoi’r cynigion sy’n destun ymgynghoriad ar waith? Os ydych, nodwch beth yw’r heriau hyn a pha atebion, os o gwbl, y dylem eu hystyried?

# Dogfennau perthnasol eraill

- Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd drafft (Cymru)
- Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd drafft (Cymru)
- Canllawiau Model Gweithredu Safonau Bwyd

# Ymatebion

Mae rhaid i ymatebion ddod i law erbyn 23:59 ar 19 Mai 2025. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i roi eich sylwadau.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (fersiwn Word hygyrch)

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (ffurflen PDF hygyrch)

Er mwyn ein galluogi i ddeall eich ymatebion yn llawn a'u hystyried yn ddigonol, a fyddech cystal ag esbonio a, lle bo modd, ddarparu tystiolaeth o'ch atebion i gefnogi eich adborth.

Yna, dylid e-bostio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i CodeReviewResponses@food.gov.uk

I gael gwybod sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau ar wefan yr ASB.

# Mwy o wybodaeth

Os oes angen fformat mwy hygyrch o'r ddogfen hon arnoch, cysylltwch â ni yn CodeReviewResponses@food.gov.uk a byddwn yn ystyried eich cais.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Cymru ac egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Sarah Aza

Pennaeth Gwaith Gweithredu Awdurdodau Lleol